Ymchwil gan y Gronfa Loteri Fawr
Rhifyn 58

Cronfa Pobl Ifanc:
Crynodeb Gwerthuso Blwyddyn 2



Cronfa Pobl Ifanc
Crynodeb Gwerthuso Blwyddyn 2

Côd stoc: BIG-YPFyear2evalsum
ISSN: 1744-4764 (Ar-lein)
Ffotograffwyr: Steve Brock, Peter Devlin, Caroline Mardon, Martin McKeown, Chris Watt
Ysgrifennwyd gan: Sarah Cheshire
Copïau pellach ar gael gan:
Ffôn: 01686 611 700
Ffôn testun: 01686 610 205
E-bost: ymholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk
Ein gwefan: www.cronfaloterifawr.org.uk

Hygyrchedd
Cysylltwch â ni i drafod unrhyw anghenion cyfathrebu penodol sydd gennych.

Ein hegwyddorion cydraddoldeb
Hyrwyddo hygyrchedd; gwerthfawrogi amrywiaeth ddiwylliannol; hyrwyddo cymryd rhan; hyrwyddo cyfleoedd cyfartal; hyrwyddo cymunedau cynhwysol; lleihau anfantais a gwaharddiad. Ymwelwch â'n gwefan am ragor o wybodaeth.

Rydym yn gofalu am yr amgylchedd
Mae'r Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru yn gweithio tuag at ddatblygiad cynaliadwy a'r defnydd o adnoddau cynaliadwy.

Ein gweledigaeth
Rydym wedi'n hymrwymo i ddod â gwir welliannau i gymunedau ac i fywydau'r bobl fwyaf anghenus.

Ein Gwerthoedd
Rydym wedi adnabod saith gwerth sy'n sail i'n holl waith: tegwch; mynediad hawdd; ffocws strategol; cynnwys pobl; arloesedd; galluogi; ychwanegol at y llywodraeth.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ymrwymedig i werthfawrogi amrywiaeth a hyrwyddo cyfle cyfartal, a hynny fel dosbarthwr grantiau a chyflogwr. Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn anelu at fabwysiadu ymdriniaeth gynhwysol tuag at sicrhau bod ymgeiswyr a derbynyddion grantiau, budd-ddeiliaid, ymgeiswyr am swyddi a gweithwyr yn cael eu trin yn deg.

© Cronfa Loteri Fawr, Hydref 2009

Yn dyfarnu arian
Y Loteri Genedlaethol
Awarding funds from
The National Lottery®

Crynodeb Gweithredol

Mae'r crynodeb hwn yn amlygu prif ganfyddiadau a themâu'r gwerthusiad o'n Cronfa Pobl Ifanc (CPI). Mae'n cynnwys canfyddiadau o bob rhan o'r DU ac yn ddehongliad o ganfyddiadau adroddiad gwerthuso llawn blwyddyn dau, sydd ar gael ar ein gwefan yn www.cronfaloterifawr.org.uk

- Roedd dau draean o'n prosiectau'n canolbwyntio ar weithio gyda grŵp penodol, gan gynnwys pobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, pobl ag anabledd corfforol neu ddysgu neu sydd mewn perygl o gael eu heithrio. Mae'r traean arall yn agored i'r holl bobl ifanc, heb unrhyw grŵp targed penodol.
- Adroddodd prosiectau fod eu gweithgareddau'n cael amrywiaeth eang o effeithiau ar bobl ifanc, gan gynnwys cynyddu hyder, gwella perthnasoedd ag eraill, gwell cymhelliant a sgiliau cyfathrebu.
- Mae'r rhan fwyaf o'r prosiectau, os nad pob un ohonynt, yn cynnwys pobl ifanc mewn rhyw ffordd ac ar ryw bwynt. Mae'r cyfranogiad hwn fel arfer ar ffurf gofyn am adborth gan bobl ifanc, naill ai'n ffurfiol neu'n anffurfiol. Mae pobl ifanc yn fwy tebygol o gymryd rhan wrth nodi'r angen am y prosiectau yn hytrach na'u cyflwyno neu eu rheoli.
- Mae prosiectau wedi gweithio'n galed i gynnwys pobl ifanc wrth gyflwyno a rheoli prosiectau, gyda 61 y cant o brosiectau'n meddu ar fforwm neu grŵp llywio pobl ifanc, ac mae 38 y cant o brosiectau'n cynnwys pobl ifanc fel cynrychiolwyr ar bwyllgorau rheoli.
- Pan fydd pobl ifanc yn cymryd rhan mae manteision clir ar eu cyfer. Gall roi llais i bobl ifanc, a'u grymuso i ddylanwadu ar weithgareddau'r prosiect a helpu i wella gwasanaethau. Gall hefyd roi cyfle i bobl ifanc ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy a allai eu helpu yn eu gyrfaoedd yn y dyfodol.

Y Gronfa Pobl Ifanc

Mae'r adran yn darparu gwybodaeth am bob un o'r rhaglenni CPI sy'n cael eu cyflwyno ar draws y DU.

Lloegr
At ei gilydd mae £77.6 miliwn wedi cael ei ddyfarnu i brosiectau i helpu i gynyddu cyfleoedd i bobl ifanc a gwneud gwahaniaeth parhaus i gymunedau. Cyflawnwyd hyn drwy ariannu prosiectau a redir gan ac ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 18 oed a hyd at 25 oed ar gyfer y rhai sy'n ei chael hi'n anodd trosglwyddo i fywyd fel oedolyn. Roedd yn ofynnol i'r prosiectau gyflawni pum canlyniad Mae Pob Plentyn yn Bwysig:

- bod yn iach
- aros yn ddiogel
- mwynhau a chyflawni
- gwneud cyfraniad cadarnhaol
- cyflawni lles economaidd

Rhannwyd y rhaglen yn dri llinyn:

- Dyrannwyd £27.6 miliwn o grantiau cenedlaethol er mwyn dyfarnu grantiau i elusennau cenedlaethol ar gyfer prosiectau a arweinir gan bobl ifanc a fyddai'n gwneud gwahaniaeth sylweddol i bobl ifanc.
- Darparodd grantiau ar gyfer sefydliadau £40 miliwn er mwyn i grwpiau gwirfoddol a chymunedol redeg prosiectau lleol sy'n darparu gwasanaethau y mae pobl ifanc yn cymryd rhan ynddynt.
- Grantiau i unigolion sy'n ariannu syniadau pobl ifanc ar gyfer prosiectau a fydd yn gwneud gwahaniaeth yn eu cymuned. Roedd £10 miliwn ar gael i ariannu unigolion a grwpiau pobl ifanc i redeg prosiect yn eu hardal. Gweinyddwyd y llinyn hwn gan y partner dyfarnu, UnLtd, a'i bartneriaid.

Gogledd Iwerddon
Roedd y rhaglen hon gwerth £14.8 miliwn ac roedd yn ceisio helpu i hyrwyddo cynhwysiad ieuenctid a thargedu adnoddau at bobl ifanc hyd at 25 oed sy'n wynebu'r perygl mwyaf o droseddu a chael eu heithrio. Mae wedi cael ei rhannu'n ddau linyn, gyda £10.8 miliwn yn cael ei ddyrannu i Change UR Future, a £4 miliwn i'r Big Deal, sy'n cefnogi unigolion a grwpiau o bobl ifanc ac yn datblygu rhaglenni strategol i gefnogi pobl ifanc fel pobl sy'n gwneud penderfyniadau. Cyflwynir y llinyn hwn gan y partner dyfarnu, YouthNet, a'i bartneriaid.

Roedd y rhaglen yn ceisio rhoi pobl ifanc wrth wraidd creu, cynllunio a chyflwyno prosiectau a fyddai'n cyflawni pedwar prif ganlyniad:

1. Cynyddu cyfranogiad pobl ifanc
2. Gwella iechyd a lles pobl ifanc
3. Cynyddu cyflawniad a dysgu pobl ifanc
4. Cefnogaeth ehangach i bobl ifanc o fewn teuluoedd ac yn y gymuned.

Roedd yn rhaid i brosiectau ganolbwyntio ar y themâu trawsbynciol canlynol hefyd:

- effaith gwrthdaro a mynd i'r afael â sectyddiaeth
- trosglwyddo o fabandod i oedolaeth ifanc
- anghenion ychwanegol pobl ifanc ddiamddiffyn sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol a'u dadrithio.

Yr Alban
Darparwyd £25 miliwn i helpu pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed i ddysgu pethau newydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau iach a chadarnhaol sy'n peri iddynt deimlo'n dda amdanynt eu hunain. Canlyniad y rhaglen hon oedd y byddai pobl ifanc yn meddu ar y canlynol:

- mwy o gyfleoedd i ennill yr hyder, y sgiliau a'r gefnogaeth y mae eu hangen i ddelio â newid yn eu bywydau a chyfrannu at eu cymunedau lleol
- mwy o gyfleoedd a gwell cyfleoedd i gymryd rhan wrth wneud penderfyniadau ynghylch materion a pholisïau sy'n effeithio arnynt yn eu cymunedau
- mwy o gyfleoedd a gwell cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n peri iddynt deimlo'n dda amdanynt eu hunain.

Roedd ariannu yn Yr Alban wedi'i rannu'n dri llinyn i gefnogi mathau gwahanol o brosiectau, gan gynnwys:

- Prosiectau lleol – £11.4 miliwn i gefnogi prosiectau a oedd yn cynnwys ardal un awdurdod lleol.
- Prosiectau cynhwysiad ehangach - £2.85 miliwn ar gyfer prosiectau a oedd yn cynnwys mwy nag un awdurdod lleol ac yn targedu cymunedau annaearyddol.
- Syniadau newydd – roedd £4.75 miliwn ar gael i ariannu prosiectau a fu'n rhoi cynnig ar ymagweddau newydd at ymgysylltu â phobl ifanc, cyflawni gwaith arloesol ac addasu ymagweddau a ddefnyddiwyd yn llwyddiannus mewn lleoedd eraill.

Yn ogystal, sefydlwyd 32 Panel Ardal Leol. Roedd y rhain yn cynnwys grwpiau o bobl ifanc a fu'n gwneud argymhellion i'r pwyllgor penderfyniadau cenedlaethol ar geisiadau ariannu gan brosiectau o dan y ffrwd ariannu Prosiectau Lleol. Roedd dau draean o aelodau'r pwyllgor, a fu'n gwneud penderfyniadau ar yr holl brosiectau, dan 25 oed.

Cymru
Roedd y rhaglen hon, â gwerth o £13.2 miliwn, yn ceisio helpu pobl ifanc rhwng 10 a 19 i:

- fwynhau bywyd a chyflawni eu potensial
- datblygu sgiliau a chyfrannu at eu cymunedau
- dewis gweithgareddau cadarnhaol nad ydynt yn annog ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Ariannwyd prosiectau o dan dri llinyn:

- Prosiectau Dyma dy Gyfle a ddatblygwyd ac a gyflawnwyd gan bobl ifanc. Roedd yn ceisio cefnogi pobl ifanc yr oedd ganddynt syniadau ar gyfer gweithgareddau neu brosiectau i helpu pobl ifanc eraill neu eu cymuned leol.
- Cefnogodd Pontio'r Bwlch brosiectau graddfa fawr a fu'n cysylltu â'r bobl ifanc fwyaf heriol ac anoddaf eu cyrraedd.
- Canolbwyntiodd Help Llaw ar gynnwys pobl ifanc mewn gweithgareddau drwy gyflawni gwaith atal, allgymorth ac ymyrraeth er mwyn llenwi bwlch mewn darpariaeth leol.

Y gwerthusiad

Yn 2006 comisiynwyd GEN Consulting a Wavehill Consulting i gyflawni gwerthusiad o raglen y Gronfa Pobl Ifanc (CPI) ar draws y DU. Nodau'r gwerthusiad yw asesu:

- Llwyddiant rhaglenni pob un o'r pedwar gwlad i gyflawni eu nodau a'u hamcanion.
- Effaith gweithgareddau prosiect ar gyfranogwyr ifanc.
- Effaith cynnwys pobl ifanc yn eu prosiect o ran dylunio, cyflwyno, rheoli a gwerthuso.

Roedd y dulliau ymchwil a ddefnyddiwyd ar gyfer ail flwyddyn y gwerthusiad yn cynnwys adolygiad desg o bolisïau datblygol y sector ieuenctid, ymweliadau astudiaeth achos â phrosiectau sy'n gweithio tuag at nifer o ganlyniadau CPI, gan gynnwys cyfweliadau â budd-ddeiliaid ac arolwg dros y ffôn o sampl o brosiectau.

Effaith y gweithgareddau

Grwpiau targed

Ceisiodd y Gronfa Pobl Ifanc gefnogi prosiectau a aeth i'r afael â phobl ifanc ddifreintiedig neu ddiamddiffyn. Dengys y canfyddiadau fod y mwyafrif o'r prosiectau ym mhob gwlad yn targedu pobl ifanc ac yn cyflawni hyn mewn dwy ffordd. Mae rhai prosiectau'n gweithio gyda phobl ifanc o grŵp difreintiedig penodol, megis pobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, sydd mewn perygl o gael eu heithrio neu sydd ag anawsterau corfforol, synhwyraidd neu ddysgu. Mae prosiectau eraill yn agored i'r holl bobl ifanc yn y gymuned leol ond yn gweithio gyda phobl ifanc o amrywiaeth o gefndiroedd ac ag amrywiaeth o anghenion cefnogi gwahanol.

Mae rhaglen y CPI yng Ngogledd Iwerddon yn wahanol i'r tair gwlad arall gan mai dim ond wyth y cant o'r prosiectau oedd yn targedu'u gweithgareddau at yr holl bobl ifanc. Roedd y mwyafrif helaeth o brosiectau'n targedu eu gwasanaethau at grŵp penodol, yn fwyaf cyffredinol y rhai ag anableddau corfforol, dysgu neu synhwyraidd (23 y cant); y rhai sydd mewn perygl o gael eu heithrio (15 y cant); a phobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl (13 y cant). Gall hyn fod o ganlyniad i ffocws y rhaglen ar anelu at grwpiau anodd eu cyrraedd a hyrwyddo cynhwysiad ieuenctid.

Mae prosiectau ar draws y DU wedi dangos eu bod yn llwyddo i gynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd mewn gweithgareddau. Gwnaed hyn yn bennaf drwy gynyddu ymwybyddiaeth, sefydlu partneriaethau da a gweithio gydag asiantaethau cyfeirio. Mae recriwtio gan gyfoedion neu roi'r si ar led hefyd wedi bod yn ddull effeithiol o gynnwys pobl ifanc. Yn aml mae cyfranogwyr mewn prosiectau'n chwarae rôl allweddol o ran annog pobl ifanc eraill i gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'u ffrindiau mor aml ag y mynnent.

Prosiect Sibling Carers Barnardos

Mae'r prosiect hwn yn gweithio gyda gofalwyr ifanc anodd eu cyrraedd yn Sir Gâr er mwyn darparu cyngor, cefnogaeth ac eiriolaeth i bobl ifanc. Mae hefyd yn eu helpu i ddatblygu sgiliau newydd drwy roi seibiant a'u cyfrifoldebau a chyfle iddynt fwynhau bywyd heb boeni. Mae'r prosiect yn cydnabod bod eu grŵp targed yn anodd iawn cysylltu ag ef, a nododd rheolwr y prosiect fod " arnynt ofn ddod i'r amlwg oherwydd iddynt boeni y byddant yn cael eu cymryd i ofal."

O ganlyniad i hyn mae'r prosiect wedi cydweithio'n agos ag ysgolion ac asiantaethau cyfeirio eraill i hygyrchu pobl ifanc a chynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar anghenion a dymuniadau'r gofalwyr eu hunain, a nhw sy'n rheoli eu cyfranogiad, eu gweithgareddau a'r gefnogaeth maent yn ei derbyn gan y gwasanaeth.

Manteision y gweithgaredd

Adroddodd prosiectau am amrywiaeth o effeithiau ar bobl ifanc o ganlyniad i weithgareddau a oedd yn cynnwys gwell lles corfforol, datblygu sgiliau newydd a hyfforddiant ffurfiol. Yn ogystal â hynny, cafwyd mwy o effeithiau meddal o ganlyniad i weithgareddau, megis

hyder cynyddol, gwell perthnasoedd ag eraill a gwell sgiliau cyfathrebu.

Mae'r gwerthusiad yn amlygu nifer o enghreifftiau yn Lloegr lle mae gweithgareddau'r prosiect yn arwain at newidiadau cadarnhaol mewn ymddygiad pobl ifanc. Er enghraifft, mae rhai o'r gweithgareddau cynyddu hyder a chefnogi wedi arwain at ganlyniadau amlwg y mae gweithwyr prosiect yn disgwyl y byddant yn gynaliadwy wrth i'r bobl ifanc symud ymlaen mewn bywyd. Dyma rai enghreifftiau:

- Lleihau ymddygiad troseddol a symud pobl ifanc ymlaen at gyflogaeth neu addysg. Cyflawnwyd hyn gan The Academy, sef prosiect a gefnogir drwy Dance United drwy raglen ddawns strwythuredig.
- Ailgynnwys pobl ifanc nad ydynt mewn addysg cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) neu sydd mewn perygl o fod yn NEET yn y meysydd hyn, rhywbeth y mae Fairbridge Under 16s yn ei wneud drwy ddarparu dysgu anffurfiol.
- Helpu ffoaduriaid a cheiswyr lloches ar eu pennau eu hunain i integreiddio a sicrhau cyfleoedd gwirfoddoli a chyflogaeth lle bo'n bosib. Cyflawnwyd hyn gan brosiect Befriending Unaccompanied Minors drwy ddarparu pecyn o ddigwyddiadau bod yn gyfaill, gwybodaeth a gweithgareddau difyr.

Cynnwys pobl ifanc

Ceisiodd y rhaglen ariannu prosiectau a gynyddodd gynnwys pobl ifanc mewn pob cam o'r prosiectau, o ddylunio i reoli a gwerthuso. Gan gadw hyn mewn cof, mae'r term 'cynnwys' yn y gwerthusiad hwn yn cyfeirio at bobl ifanc yn chwarae rôl fwy gweithredol mewn prosiectau. Gall hyn fod drwy ddylunio, cyflwyno a rheoli prosiectau. Mae hyn yn wahanol i'r term cyfranogiad sy'n golygu bod pobl ifanc yn ymwneud â phrosiect, ond fel cyfranogwr neu fuddiolwr.

Mae'r canfyddiadau'n dangos bod y rhan fwyaf o'r prosiectau ar draws y DU, os nad pob un, yn cynnwys pobl ifanc mewn rhyw ffordd. Nid yw hyn fel arfer yn golygu bod pobl ifanc yn rhedeg prosiectau, ond y gofynnir iddynt am adborth. Er enghraifft, dangosodd arolwg o brosiectau CPI fod 91 y cant o bobl ifanc ar draws y DU yn cael eu cynnwys mewn prosiectau drwy adborth anffurfiol a bod 70 y cant o brosiectau wedi defnyddio adborth strwythuredig i gynnwys pobl ifanc. Mae hyn yn dangos bod safbwyntiau pobl ifanc yn cael eu ceisio; fodd bynnag, os na ddefnyddir adborth i helpu i lunio gwasanaethau, ni fydd ganddo lawer o werth.

Nid yw'n syndod mai'r bobl ifanc fwyaf hyderus a chysylltiedig yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o gymryd rhan mewn prosiectau. Dengys canfyddiadau fod llawer o bobl ifanc eisiau cymryd rhan mewn gweithgareddau'n unig yn hytrach na chael eu cynnwys yn weithredol. Ar ben hynny, roedd pobl ifanc yn fwy tebygol o gael eu cynnwys wrth nodi'r angen a datblygu camau'r prosiect yng nghamau cynnar prosiectau yn hytrach nag yn y camau cyflwyno neu reoli.

Datblygu

Mae'n galonogol bod pobl ifanc wedi cael eu cynnwys yng ngham datblygu prosiectau gan ei fod yn golygu eu bod yn cael eu hysgogi gan angen a nodwyd ganddynt, ac felly mae'r gwasanaethau'n fwy tebygol o ddarparu'r gweithgareddau y maent eu heisiau.

Yn bennaf casglodd prosiectau syniadau ar gyfer datblygu gweithgareddau drwy arolygon, grwpiau ffocws, gwerthusiadau a sgyrsiau gyda phobl ifanc er mwyn canfod eu barn. Darparodd rhai prosiectau hyfforddiant i bobl ifanc gyflawni ymgynghori gyda phobl ifanc eraill.

Dengys canfyddiadau mai i raddau cyfyngedig yr oedd pobl ifanc wedi cael eu cynnwys wrth ddrafftio ceisiadau ariannu. Er bod pobl ifanc wedi cyfrannu eu syniadau, yn y mwyafrif o achosion, y gweithiwr prosiect oedd wedi llunio'r cais. Roedd rhai prosiectau eisiau osgoi "gweithredoedd symbolaidd", gan deimlo nad oedd y broses ymgeisio gymhleth yn addas ar gyfer cynnwys pobl ifanc. Roedd hyn oherwydd y gallent deimlo ei bod yn drech na nhw neu efallai nad oeddent am gymryd rhan. Mae'n bosib y bydd rhaglenni'r dyfodol eisiau ystyried ffyrdd mwy rhagweithiol o asesu ceisiadau, a allai fod yn fwy deniadol i bobl ifanc.

Mae'r prosiectau wedi codi materion ynghylch graddfeydd amser ymgeisio,
gan adrodd y gallai cymryd hyd at flwyddyn o ddechrau'r syniad gwreiddiol i ddechrau go iawn y gweithgareddau. Mae hyn yn gyfnod amser sylweddol i gadw cysylltiad â phobl ifanc os nad yw'r prosiect yn cael ei gyflwyno.

Cyflwyno a rheoli

Er bod tystiolaeth o oedolion yn cymryd rôl arweiniol wrth gyflwyno a rheoli'r prosiect, mae pobl ifanc hefyd wedi bod yn cymryd rhan yn y camau hyn, er yr oedd hyn yn amrywio i raddau gwahanol rhwng prosiectau. Cyflawnodd pob prosiect gynnwys pobl ifanc mewn gweithgareddau llywio. Roedd hyn yn bennaf drwy gynnwys pobl ifanc mewn adolygu'r gweithgareddau roeddent wedi cymryd rhan ynddynt a gwneud sylwadau amdanynt. Yn y rhan fwyaf o achosion, adolygwyd yr adborth hwn gan staff y prosiect ac fe'i defnyddiwyd i gyfeirio cyflwyno gweithgareddau yn y dyfodol

Fodd bynnag, roedd rhai prosiectau wedi'u dylunio er mwyn i bobl ifanc fod yn rhan ganolog o gyflwyno gweithgareddau. Yn yr achosion hyn, rôl yr oedolion oedd bod yn hwyluswyr neu ddarparwyr hyfforddiant er mwyn galluogi pobl ifanc i gymryd rhan yn y cyflwyniad. Pan oedd pobl ifanc yn cymryd rhan fel hyn, gwnaethant gyflawni gweithgareddau megis:

- ceisio dylanwadu ar arfer proffesiynol drwy ddatblygu deunyddiau i esbonio'r materion sy'n effeithio arnynt
- trefnu digwyddiad i bobl ifanc eraill
- adolygu gweithgareddau a chynllunio ar gyfer pobl ifanc eraill
- hyfforddi pobl ifanc i weithredu fel cyfryngwyr rhwng cyfoedion er mwyn lleihau gwrthdaro yn eu cymunedau
- cefnogi pobl ifanc i ymgeisio am ariannu er mwyn gwneud gwahaniaeth yn eu cymuned.

Mae pobl ifanc wedi ymwneud yn fwy ffurfiol â rheoli llawer o brosiectau. Dengys canfyddiadau'r arolwg fod gan 61 y cant o brosiectau fforwm ieuenctid neu grŵp llywio a bod gan 38 y cant o brosiectau bobl ifanc fel cynrychiolwyr ar y pwyllgor neu fwrdd rheoli. Chwech y cant yn unig a nododd nad oedd pobl ifanc yn ymwneud â rheoli gweithgaredd prosiect. Mae hyn yn dangos bod prosiectau'n canolbwyntio'n glir ar ddiwallu anghenion pobl ifanc a'i fod yn arfer cyffredin iddynt siarad â chyfranogwyr yn gyson er mwyn sicrhau bod y prosiect yn diwallu eu hanghenion. Ymysg rolau a chyfrifoldebau'r grwpiau hyn ceir cynnwys pobl ifanc wrth hyrwyddo gweithgareddau prosiect, recriwtio staff prosiectau, rheoli cyllidebau gweithgareddau neu ddatblygu rheolau a rheoliadau sy'n llywodraethu cyfranogwyr mewn prosiectau.

Y tu hwnt i gymryd rhan mewn gweithgareddau a'u hadolygu, nododd yr arolwg fod pobl ifanc mewn mwy na 60 y cant o'r prosiectau'n ymwneud â chynnwys pobl ifanc eraill. Gwnaed hyn naill ai drwy roi'r si ar led neu drwy foddau mwy ffurfiol. Adroddodd staff o'r prosiectau astudiaeth achos y gall pobl ifanc fod yn fwy llwyddiannus nag oedolion o ran annog pobl ifanc eraill i ddod i brosiect. Os yw pobl ifanc yn ymwneud â'r cyflwyniad, gall olygu y byddant yn fwy llwyddiannus wrth drosglwyddo neges neu annog adborth gan bobl ifanc eraill. Credir bod yr ymagwedd hon seiliedig ar gyfoedion yn llwyddiannus oherwydd y ffactorau canlynol:

- mae pobl ifanc yn ei chael hi'n haws ymddiried ym mhobl ifanc eraill nag oedolion
- gellir hyrwyddo'r prosiect mewn ffordd y gall pobl ifanc eraill ei deall ac uniaethu â hi – maent yn siarad yr un iaith
- pan ddaw'r neges gan berson ifanc arall, nid ydynt yn teimlo eu bod yn derbyn pregeth gan ffigur mewn awdurdod ac felly maent yn fwy parod i'w derbyn
- mae gweld person arall fel nhw'n ymwneud â gweithgaredd y prosiect yn darparu model rôl realistig y gallant anelu ato, gan eu symbylu i roi cynnig arni hefyd.

Mae nifer o brosiectau yng Ngogledd Iwerddon lle mae pobl ifanc yn ymwneud ag ymgysylltu â phobl ifanc eraill, er enghraifft:

- Ar hyn o bryd mae Young Mums on the Move yn paratoi rhai o fenywod ifanc mwy hyderus y prosiect i fynd allan i grwpiau ieuenctid i hyrwyddo'r prosiect.
- Ym mhrosiect Vision 4 Life, mae'r bobl ifanc hŷn yn mynd yn fentoriaid cyfoedion ar gyfer y rhai ifanc, gan gefnogi nhw yn eu gweithgareddau a'u hannog i roi cynnig ar bethau newydd.
- Mae'r Foyer Reaction Group wedi cyflogi cynrychiolydd preswyl ym mhob un o'r tri grŵp Foyer yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r cynrychiolwyr hyn yn gweithio gyda phreswylwyr presennol i'w hannog i gymryd rhan yn fwy gweithredol wrth reoli'r prosiect.

Rhwystrau i gymryd rhan

Mae'r gwerthusiad wedi amlygu nifer o resymau, wedi'u hamlinellu isod, pam nad yw pobl ifanc yn cymryd rhan yn weithredol mewn prosiectau.

- Gall creu a chynnal brwdfrydedd ac ymrwymiad pobl ifanc i gymryd rhan fod yn her. Er bod gan lawer o brosiectau grŵp craidd bach sydd wedi croesawu'r syniad o gymryd rhan, mae eraill yn fodlon ymwneud â phrosiectau dim ond fel cyfranogwyr yn eu gweithgareddau.
- Mae rhai prosiectau'n gweithio gyda grwpiau heriol neu anoddach eu cyrraedd, gan olygu y gall hefyd fod yn anoddach eu cynnwys a bod angen defnyddio mwy o adnoddau i wneud hynny.
- Gall natur rhai gweithgareddau prosiect, yn enwedig gweithgareddau chwaraeon ac awyr agored, ofyn am staff medrus a chymwys iawn i gyflwyno gweithgareddau a goruchwylio pobl ifanc.
- Mae blaenoriaethau ac amgylchiadau pobl ifanc yn tueddu i newid yn gyflym, gan ei wneud yn anodd i brosiectau ddod o hyd i'r amser a'r ymrwymiad i gymryd rhan yn fwy gweithredol.
- Gall defnyddio strwythurau a phrosesau presennol prosiect ei gwneud hi'n anodd cynnwys pobl ifanc yn ystyrlon. Fodd bynnag, nododd nifer o brosiectau fod cyfranogiad wedi mynd yn haws ac yn fwy ystyrlon yn ystod y cyfnod ariannu wrth i strwythurau a phrosesau newydd ddatblygu a chael eu hymgorffori ac wrth i weithwyr prosiect ac oedolion symud ar hyd "cromlin ddysgu".

Roedd nifer o brosiectau wedi mabwysiadu ffyrdd o oresgyn y rhwystrau hyn. Mae enghreifftiau o lwyddiannau'n cynnwys cefnogi pobl ifanc i reoli elfen benodol y prosiect, megis digwyddiad cymunedol; neu ddarparu llwybr dilyniant a alluogodd pobl ifanc i gymryd rhan yn gynyddol dros amser yn dilyn cam adeiladu gallu cychwynnol a chyda chefnogaeth barhaus.

BeatRoute

Mae'r prosiect hwn, sydd wedi'i leoli yng Nghanolfan Ieuenctid Balornock East yn Glasgow, yn darparu cyfle i bobl ifanc o gefndiroedd gwahanol ddod ynghyd a mynegi eu hunain drwy gerddoriaeth.

Mae'r bobl ifanc yn ymwneud â rheoli'r prosiect ar lefel strategol drwy gael eu cynnwys yn y 'Pwyllgor Ieuenctid'. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys naw cyfranogwr ifanc yn y prosiect.

Yn ddiweddar roedd y Pwyllgor Ieuenctid yn ymwneud â recriwtio gweithiwr ieuenctid i reoli'r prosiect. Darparwyd hyfforddiant i bobl ifanc er mwyn iddynt ddatblygu cwestiynau cyfweliad, cyflawni cyfweliad a dewis ymgeisydd priodol gyda chefnogaeth gan staff Cyngor Dinas Glasgow.

Wrth fynd drwy'r broses hon, helpodd y bobl ifanc i recriwtio gweithiwr prosiect â phrofiad addas y gallant uniaethu ag ef. Mae hyn wedi bod yn fuddiol i'r bobl ifanc, sydd wedi datblygu sgiliau ac sydd bellach ag ymdeimlad gwirioneddol o berchen ar y prosiect.



Effaith cymryd rhan

Ar bobl ifanc

Er ei fod yn rhy gynnar ddweud a yw cymryd rhan mewn prosiectau'n cael effaith hir dymor sylweddol ar bobl ifanc, mae gweithwyr prosiect yn credu bod cymryd rhan wrth sefydlu, cyflwyno a rheoli prosiectau wedi cael effaith gadarnhaol ar bobl ifanc. Gall rhoi llais i bobl ifanc a'u grymuso i ddylanwadu ar weithgareddau'r prosiect a helpu i wella gwasanaethau. Mae'n galluogi pobl ifanc i deimlo bod eu barn yn bwysig ac y bydd yn cael ei hystyried o ddifrif. Gall hefyd roi cyfle i bobl ifanc ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy mewn meysydd megis cyd-drafod, rheoli ariannol neu drwy gymryd rhan mewn pwyllgorau. Gall hyn helpu i wella eu cyfleoedd bywyd a chyfleoedd gyrfa yn y dyfodol

Yn ogystal â hyn, nododd y gwerthusiad fuddion eraill, gan gynnwys:

- gwell hyder a hunan-barch
- gwell symbyliad a dyheadau cynyddol
- gwell sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol
- gwell perthnasoedd â chyfoedion a chymdeithas yn gyffredinol.

Mae rhai o'r manteision y mae pobl ifanc yn eu cael drwy gymryd rhan yn weithredol mewn prosiectau'n cyfateb i'r rhai a geir drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau. Fodd bynnag, gall prosiectau sy'n hyrwyddo cyfranogiad gwirioneddol pobl ifanc arwain at fuddion sylweddol a hir dymor ar gyfer y bobl dan sylw.

Amlygodd y gwerthusiad nifer o enghreifftiau o Ogledd Iwerddon lle cafwyd manteision neu fanteision disgwyliedig cyfranogiad pobl ifanc mewn prosiectau. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r gwirfoddolwyr ifanc gyda YEHA sy'n dylunio ac yn cyflwyno elfennau o'r prosiect yn cael eu helpu tuag at yrfa mewn gwaith ieuenctid neu addysg gymunedol.
- Cynigir cyflogaeth â thâl i Gynrychiolwyr Preswyl Foyer Reaction Group er mwyn eu helpu i symud i ffwrdd o ddigartrefedd a datblygu'r sgiliau y mae eu

Beth nesaf?

hangen fel cam cyntaf tuag at yrfa mewn gwaith ieuenctid neu waith cymdeithasol.

- Mae pobl ifanc o Blackstaff Youth Project wedi gwella'u hyder a'u sgiliau gwaith tîm drwy gymryd rhan mewn fforymau ieuenctid a grwpiau llywio. Mae hyn wedi rhoi hyder i'r bobl ifanc fynd i'r cyngor lleol i ofyn iddynt roi delweddau mwy cadarnhaol yn lle murluniau paramilwrol.

Ar brosiectau

Mewn llawer o brosiectau, gwneir newidiadau i wasanaethau a gweithgareddau'n rheolaidd wrth ymateb i adborth gan y rhai sy'n cymryd rhan. Fodd bynnag, os nad yw prosiectau'n cofnodi'r newidiadau hyn, mae'n anodd iddynt ddarparu tystiolaeth o sut mae pobl ifanc yn creu newidiadau yn y prosiectau.

Dangosodd canfyddiadau y gall cynnwys pobl ifanc gael effaith gadarnhaol ar sut mae prosiectau'n cael eu cyflwyno a pha weithgareddau sydd ar gael. Gall pobl ifanc helpu gweithwyr prosiect sy'n oedolion i ddeall anghenion eu grŵp cleientiaid a sut i'w diwallu. Yn benodol, mae eu mewnbwn yn hynod werthfawr yn y cam dylunio drwy helpu i sicrhau bod prosiectau wedi'u dylunio i ddiwallu anghenion y bobl ifanc y maent yn eu targedu.

Mae pobl ifanc mewn sefyllfa dda i gyfathrebu a'u cyfoedion, ac adroddodd staff prosiectau mai prif fudd hyn o ran y prosiect yw mai'r bobl ifanc sydd yn y sefyllfa orau i recriwtio pobl ifanc eraill ac ymgysylltu â nhw. Yn aml roedd pobl ifanc yn ymwneud â datblygu deunyddiau neu strategaethau hysbysebu er mwyn helpu gyda recriwtio pobl ifanc eraill i brosiectau.

Ym mhob gwlad ac ar draws y DU, dengys y canfyddiadau'n glir fod y Gronfa Pobl Ifanc yn cael effaith sylweddol a chadarnhaol ar y bobl ifanc sy'n ymwneud â'r prosiectau. Ymddengys fod hyn yn arbennig o wir ymysg y bobl ifanc sydd wedi cymryd rhan yn weithredol wrth ddylunio, cyflwyno a rheoli prosiectau.

Mae'n rhy gynnar ddweud p'un a fydd y cyfranogiad hwn yn cael effaith hir dymor ar bobl ifanc. Fodd bynnag, bydd y gwerthusiad yn ymchwilio ymhellach i hyn yn y dyfodol drwy gywain barn a safbwyntiau pobl ifanc. Rydym newydd dderbyn adroddiad gwerthuso blwyddyn 3 a bydd hyn, ynghyd â chrynodeb o'r canfyddiadau allweddol, ar gael ar ein gwefan yn rhan olaf 2009. Bydd adroddiadau yn y dyfodol yn cynnwys canfyddiadau manwl ar gyfer gwledydd penodol.